# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 (Tŷ Hywel)**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(13:15-13:30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(13:30 - 13:35)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant

## 2 Papurau i'w nodi

(13:35)

**2.1 Gohebiaeth gan Medr at y Cadeirydd ynghylch y Bwlch Cyflogaeth Anabledd**

(Tudalennau 1 - 6)

**2.2 Gohebiaeth gan y Prif Weithredwr a'r Clerc, Senedd Cymru at y Cadeirydd ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal yr epidemig o ran trais ar sail rhywedd**

(Tudalennau 7 - 10)

**2.3 Gohebiaeth gan Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru at y Cadeirydd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26**

(Tudalennau 11 - 14)

**2.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch at y Cadeirydd ynghylch y Bwlch Cyflogaeth Anabledd a'r system addysg.**

(Tudalennau 15 - 33)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

2.5 Gohebiaeth gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder at y Cadeirydd ynghylch y Turnaround Programme

(Tudalen 34)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (vii) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 10 Chwefror 2025.

(13:35)

### Cyfarfod preifat

(13:35-15:00)

## 4 Bwlch cyflogaeth anabledd: trafod yr adroddiad drafft

(13:35 - 14:35) (Tudalennau 35 - 40)

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth: ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

(14:35 - 15:00) (Tudalennau 41 - 62)

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

23 January 2025

Jenny Rathbone MS
Chair of the Equality and Social Justice Committee
SeneddEquality@Senedd.Wales

Dear Ms Rathbone MS

**Inquiry on Disability and Employment**

Many thanks for your letter regarding the Equality and Social Justice Committee inquiry into disability and employment. You have specifically requested information on increasing participation of underrepresented groups including disabled people within Apprenticeships.

Medr (the Commission for Tertiary Education and Research) is an arm's-length body of the Welsh Government, established by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 to fund and regulate the tertiary education sector in Wales. This includes:

- further education
- higher education including research and innovation
- adult community learning and work-based education
- apprenticeships
- local authority maintained school sixth-forms

Our vision is to work in close collaboration with our partners to enable a tertiary education and research system that is centred around the needs of learners, society and the economy with excellence, equality and engagement at its heart.

Medr is due to publish its Strategic Plan early in 2025, following approval from the Welsh Government. The Strategic Plan has been developed in consultation with our partners across Wales. The Strategic Plan sets out our response to the Welsh Government's statement of strategic priorities for tertiary education and research and innovation. It also takes account of the legislative requirements placed on us in the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022. It outlines our strategic aims and commitments and describes the way in which we want to work to achieve them, integrated with the five ways of working set out in the Well-being of Future Generations Act.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Any correspondence in Welsh will be answered in Welsh, and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ



www.medr.cymru

Medr is responsible for the operational policy and delivery of apprenticeships across Wales. Medr is committed to working towards creating a tertiary education system where learners receive the highest-quality provision, with clearer and more flexible pathways. One of our key priorities is to ensure apprentices gain the skills, knowledge and qualifications they need to progress within their chosen career, whilst responding to the changing economy skills needs.

Medr is committed to ensuring our all age apprenticeship programme is inclusive to all, including disabled people, Black, Asian, and Minority Ethnic people, women and those with low skills across all sectors in Wales.

One of Medr's key priorities is to support creating a positive future for the tertiary education sector and for Wales, and will do so through continuous improvement, including more equitable opportunities. We will continue to seek opportunities to improve the uptake of apprenticeships from people with protected characteristics, including disabled people. Medr monitors data to understand how delivery is performing and will consider whether interventions would be helpful.

As you are aware, the Welsh Government has a target to create 100,000 all-age apprenticeships. Progress towards this target began being measured from May 2021. By April 2024, there had been 59,565 apprenticeship starts under the target measure. The breakdown of the target measure figure by disability/learning difficulty status:

- 11% with a disability and/or learning difficulty
- 89% without a disability and/or learning difficulty

Please find below information on the support that is currently available to disabled apprentices:

- Supported Shared Apprenticeships
  Supported Apprenticeships provide additional support to disabled apprentices with intensive and wide-ranging employment and learning needs to access and complete an apprenticeship. Support provided may be through job coaching or other specialist resource.

- Employer Incentive Scheme
  The apprenticeship programme provides dedicated funding to employers to recruit disabled people. The Incentive Scheme (EIS) provides financial support of £2,000 to employers to help provide opportunities for disabled apprentices.

- Apprenticeship Additional Learning Support
  Dedicated support is available for apprentices with additional learning needs, which includes, ALN key workers, communicators, ancillary and counselling.

A key theme of Medr's strategic plan is to understand and try to address the barriers to participation across tertiary education, not just apprenticeships.  To support this, we are commissioning research to collate good practice across Wales, the UK and the world on improving diversity within apprenticeships. The outcome of this will inform the future Apprenticeship Programme, which is due to commence in 2027, and will help strengthen the existing programme, including whether alternative interventions would be helpful.

I hope you find this information useful.

Yours Sincerely

Heather Davidson
Head of Apprenticeships

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Simon Pirotte
Prif Weithredwr
Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

22 Hydref 2024

Annwyl Simon

Ymchwiliad i Anabledd a Chyflogaeth

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i anabledd a chyflogaeth yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad a'i Gylch Gorchwyl ar dudalennau gwe'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bwlch yn ei dystiolaeth, a byddai'n gwerthfawrogi pe gallech ymateb yn ysgrifenedig i feysydd a godwyd yn ystod y dystiolaeth a ddaeth i law hyd yn hyn. Gofynnir ichi ystyried cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn eich ymateb.

Yn ei dystiolaeth, cododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bryderon am y gostyngiad yn nhargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau, gan sôn na osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer cynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cynnwys pobl anabl mewn prentisiaethau. Maen nhw'n argymell bod Llywodraeth Cymru a Medr yn mynd i'r afael â'r tan-gynrychiolaeth o bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau, ac sy'n cwblhau prentisiaethau.

Rydym wedi clywed am y rhwystrau sylweddol a wynebir gan bobl anabl o fewn addysg, gan gynnwys diffyg o ran gwybodaeth, cyfle, hyblygrwydd a chefnogaeth. Wrth ystyried eich Cynllun Strategol Drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fe wnaethom nodi nad yw'r un o'ch pum nod strategol yn sôn yn uniongyrchol am ddysgwyr ag anableddau, neu'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am y modd y mae Medr yn bwriadu mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr anabl, a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Anfonwch eich tystiolaeth erbyn dydd Llun 13 Tachwedd 2024 i SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru. Mae canllawiau ar gyflwyno tystiolaeth i'r Senedd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad.

Os hoffech drafod hyn ymhellach gydag aelod o'r tîm clercio, anfonwch e-bost at SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad

Gwybodaeth am baratoi cyflwyniad ysgrifenedig i’r Senedd.

## Canllawiau

Ni ddylai’r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo’r paragraffau, a dylai’r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl. Dylech gynnwys disgrifiad byr o rôl eich sefydliad, gan y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi fel tystiolaeth.

Gweler rhagor o fanylion yn y canllawiau i'r rheini sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau.

## Polisi Dwyieithrwydd

Mae’r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau weithredu eu safonau a’u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â’u rhwymedigaethau statudol.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd



28 Ionawr 2025

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Jenny

**Mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig mewn trais ar sail rhywedd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2024. Mae'n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Yn fy llythyr blaenorol, nodais y byddai'r tîm Dysgu ac Ymgysylltu Aelodau (MLE) yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer cynnig hyfforddiant, gan ystyried y tri maes yr oeddech wedi tynnu sylw atynt yn benodol, sef:

- rhagor o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o beth yw trais ar sail rhywedd;
- sgiliau ymyrryd gwell gan wylwyr, sy'n rhoi'r sgiliau i unigolion adnabod arwyddion o sefyllfaoedd trais ar sail rhywedd posibl ac i ymyrryd yn ddiogel ac yn effeithiol; a
- chymhwysedd diwylliannol: deall cymhlethdodau mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd o fewn cyd-destunau diwylliannol amrywiol.

Fel cam cyntaf, gweithiodd MLE yn agos gyda Kindling Interventions, a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, i ddatblygu cwrs hyfforddi i fodloni'r briff uchod, yn enwedig yr ail bwynt bwled uchod. Mae amlinelliad o'u cwrs yn nodi mai dyma yw eu hamcanion:

*Bydd yr hyfforddiant wedi'i wreiddio ar ein rhaglen bresennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, 'Bystander at Work' ond bydd yn cael ei ddatblygu a'i deilwra'n benodol i ganolbwyntio ar sylwi ac ymyrryd mewn rhywiaeth, stereoteipio ar sail rhyw, micro-ymosodedd ar sail rhywedd, aflonyddu rhywiol a mathau eraill o drais ar sail rhywedd yn erbyn menywod a merched.*

*Oherwydd bod y cyfranogwyr yn rhai sydd ar lefel uwch arweinyddiaeth, bydd yr hyfforddiant hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn benodol i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, braint a grym.*

Mae gan MLE brofiad helaeth o weithio gyda grwpiau plaid i ddarparu hyfforddiant i Aelodau ac maent yn cydnabod eu bod yn ffafrio hyfforddiant o fewn y grwpiau hynny ar bynciau o sensitifrwydd arbennig, fel hyn. Mae trefnu amser ar gyfer hyfforddiant i Aelodau hefyd yn her ac felly gofynnir am ymrwymiad grwpiau plaid bod cynifer o Aelodau â phosib yn gallu bod yn bresennol yn yr hyfforddiant a gynigir.

Ar ôl cysylltu â’r holl Grwpiau Plaid, manteisiodd dau Grŵp Plaid ar y cyfle i fynd ar yr hyfforddiant hwn yn nhymor yr hydref 2024. Yn anffodus, nid oedd y Trydydd Grŵp Plaid yn gallu neilltuo amser/capasiti ar gyfer y pwnc hwn. Y cam nesaf fydd mynd at yr Aelodau annibynnol i gynnig yr hyfforddiant hwn iddyn nhw. Manteisiodd cyfanswm o 22 Aelod o ddau grŵp ar y cynnig hyfforddi, sef 37% o’r holl Aelodau.

Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar ddeall y materion hyn o fewn cyd-destun gwaith. Mae'r tîm MLE wrthi hefyd yn trafod gyda darparwyr hyfforddiant cael sesiwn ymwybyddiaeth benodol ar Drais ar Sail Rhywedd (GBV) i gwmpasu'r hyn sy'n gyfystyr â GBV a deall cymhwysedd diwylliannol. Byddai’n cael ei gyflwyno fel sesiwn drawsbleidiol gyda gwahoddiad i Aelodau a'u staff cymorth ddod i’r hyfforddiant. Mae eich Pwyllgor wedi cydnabod, wrth geisio cael ymrwymiad gan Aelodau drwy Argymhelliad 12, er bod y Comisiwn yn sicrhau bod hyfforddiant ar gael, mai mater i’r Aelodau yw manteisio ar y cyfleoedd hyn. Hoffem felly gynnig y sesiwn hon ar y cyd â’ch pwyllgor chi fel y gall yr aelodau fod yn bresennol, ac annog Aelodau eraill i wneud yr un peth.

I ategu’r sesiynau uchod, mae’r tîm MLE, yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi darparu hyfforddiant arall i Aelodau a staff Cymorth Aelodau ar bynciau cysylltiedig, sy’n ategu ac yn cefnogi’r pwnc dan sylw – sef Urddas a Pharch yn y Gweithle, Aflonyddu Rhywiol yn ogystal â chynnig cyrsiau ar Ddiogelu Oedolion sy’n Agored i Niwed.

O ran staff y Comisiwn, mae’r tîm Datblygu Sefydliadol, Dysgu a Chynhwysiant wedi trefnu hyfforddiant gan Cymorth i Ferched Cymru a’r Ymddiriedolaeth Goroeswyr i’w gyflwyno i staff y Comisiwn (gan gynnwys Swyddogion Diogelu Dynodedig, Swyddogion Cyswllt, TUS, Staff Pwyllgorau, Rheolwyr Adnoddau Dynol a’r Tîm Addysg) sy'n cynnwys gwybodaeth ac ystadegau ar Drais ar Sail Rhywedd.  Bydd staff y Comisiwn hefyd yn dilyn hyfforddiant ar ddiwedd y mis gan BAWSO o Gaerdydd a fydd yn trafod Trais ar Sail Rhywedd yn y cwrs Diogelu Arferion Diwylliannol a Niweidiol.

Yn gywir,

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc
Senedd Cymru

Annwyl Manon

20 Rhagfyr 2024

Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig mewn trais ar sail rhywedd

Wrth gyhoeddi ein hadroddiad, fe wnaethom ni ysgrifennu atoch i dynnu sylw at argymhelliad 12 a oedd yn galw ar Aelodau o'r Senedd i ymrwymo i gynnal hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd. Roeddem yn ddiolchgar i chi am eich ymateb, a nodwyd gennym ar 26 Chwefror 2024.[1]

Roedd ein gohebiaeth wreiddiol yn cydnabod nad oes modd gorfodi Aelodau, fel deiliaid swyddi yn hytrach na gweithwyr, i ymgymryd â hyfforddiant. Serch hynny, mynegwyd ein gobaith y byddai Comisiwn y Senedd yn helpu i hwyluso'r broses weithredu. Fe wnaethom hefyd nodi amserlen – "erbyn diwedd 2024" – gan obeithio y byddai hyn yn sicrhau gweithrediad amserol ac yn sbardun i ni wneud gwaith dilynol ar hyn. Gyda diwedd y flwyddyn bron ar ein gwarthaf, byddem yn croesawu y wybodaeth ddiweddaraf gennych chi am sut mae Comisiwn y Senedd wedi hwyluso'r canlyniadau a ragwelwyd yn ein hargymhelliad.

Fel rhan o'r wybodaeth hon, byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys manylion am y canlynol:


- y statws presennol o ran gweithredu Argymhelliad 12;
- y mesurau a'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn y Senedd i hwyluso'r broses weithredu;
- unrhyw heriau neu gyfleoedd y daethpwyd ar eu traws; a
- yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer unrhyw gamau sy'n weddill.

[1] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Dydd Llun 26 Chwefror 2024, papur i'w nodi 2.1

Byddem yn croesawu ymateb o fewn yr amserlenni arferol ac yn ddelfrydol erbyn 31 Ionawr 2025.

Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar y mater hollbwysig hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

# Briefing: Welsh Government Draft Budget 2025-26

*January 2025*

## Introduction

The Wales Women's Budget Group (WWBG) and the Women's Equality Network (WEN) Wales have jointly analysed the Welsh Government Draft Budget 2025-26 from a gender equality perspective. This briefing highlights some key points and recommendations. WWBG and WEN have given oral and written evidence to the Finance Committee on the Draft Budget 2025-26. Our full consultation response can be found here and a recording of the evidence session is available on Senedd.tv.

## 1. Childcare and early years

1.1. The lack of affordable and accessible childcare remains a critical barrier to gender equality in Wales. High childcare costs and significant accessibility issues with government funded provision are compounding the financial pressures faced by families in Wales, leading some parents - particularly mothers - to reduce their working hours or leave the workforce altogether to make up for this shortfall in provision. With over a quarter (25.7%) of women in Wales economically inactive due to caring responsibilities, the lack of adequate childcare provision continues to entrench the unequal economic position of women. These pressures are felt most acutely by low-income families and single mothers, who are being pushed further into debt and poverty in order to care for their children. This has significant implications for tackling children's poverty in Wales, seeing as the root causes and consequences of women's and children's poverty are inextricably linked.[1]

1.2. Despite significant investment in childcare at a UK level (and corresponding consequential funding being made available to the Welsh Government), funding for the Welsh Government's Childcare Offer was repeatedly cut during the 2023-24 in-year spending changes and the 2024-2025 Budget. These cuts were justified on the basis of lower-than expected uptake forecasts of the Welsh Childcare Offer. However, it is well-evidenced that the need for affordable and accessible childcare remains critical in Wales. With mothers being pushed into unemployment and their families into poverty, lower-than-expected demand does not stem from a reduction in need. It rather suggests that the design and operation of the childcare offer is not meeting the needs of many families in Wales. .

1.3. The 2025-26 Draft Budget includes a £20 million increase in funding for the Childcare Offer, intended to increase the hourly rate paid to providers from £5 to £6. While we welcome this increase to help support the sustainability of the sector and the female-dominated childcare workforce, it amounts to little more than a sticking plaster in the context of previous cuts.. Indeed, the BEL "Support for Children and Play" which covers the Childcare Offer was £101m in 2023-24, £82m in 2024-25 and is £102m in this Draft Budget. There appears to be no budget commitment towards addressing any of the major challenges identified in the Equality and Social Justice Committee's recent inquiry into childcare, including the disjointed nature of the system, the complexity of the application process and the lack of childcare for low-income families. It is also unclear whether the uprating of payments to providers is sufficient to support providers who face closure due to increases in employer NICs.

1.4. While the Welsh Government remains committed to rolling out Phase 3 of the Flying Start programme, and has asked local authorities to prepare plans for the final phase, there does

[1] Women's Budget Group (2005), Women's and children's poverty: making the links, https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/112550/women's-children's-poverty-010305-en.pdf;jsessionid=7CF916436D8B79C80A6B8D9D25D182CD?sequence=1

not appear to be a funding commitment to support this.[2] Instead, the Children and Communities Grant, which funds Flying Start, received a real terms cut of 2.3% in this year's Draft Budget.

**Potential questions**

1. **The Welsh Government has looked at the reasons for low uptake of its Childcare Offer as part of its evaluation of year 6 and 7 of the Offer. While we understand that this information will not be published until the end of the financial year, how have early findings of this work influenced the budget allocations?**
2. **What funding has the Welsh Government allocated towards addressing the structural challenges with the Welsh childcare system identified in the ESJ Committee's recent inquiry? How will this budget help pave the way to ensure families in Wales are able to navigate and access this provision?**
3. **How confident is the Welsh Government had that the increase in the rate for the Childcare Offer is enough to avoid further settings closing in light of NIC increases and other pressures? How will this investment help ensure more families can access this essential provision, given that uptake levels are only around 55%?**
4. **How confident is the Welsh Government that this budget provides enough funding for local authorities to progress at pace the roll-out of Flying Start Phase 3?**

## 2. Cost of living support

2.1. Due to persistent gender inequality, women in Wales – particularly single mothers, disabled women, ethnic minority and racialised women – continue to feel the brunt of high costs of living. Support measures, such as the Discretionary Assistance Fund (DAF) provides a vital lifeline to those on low incomes. Its increase by over £1 million is therefore welcome.

2.2. It is, however, difficult to assess the impact of this allocation on women in Wales, as uptake analysis currently only considers recipients' age. We would therefore welcome a gendered breakdown of the DAF analysis to better understand how many women access this fund.

2.3. Regardless of the level of funding, the fact that such payments are made at household level is a concern as it risks undermining women's access to an independent income and increases their vulnerability to financial abuse and financial dependency on an abuser. We would suggest that the Welsh Government could do more to improve the process of these payments as well as ensuring the level of funding is appropriate.

2.4. While hardship payments are essential, they are short-term measures that do little to address the underlying causes of the crisis, and help households cope in the longer term. It is important that they go hand in hand with the longer-term work on the structural causes of poverty and inequality.

**Potential questions**

1. **What gender and equalities evidence has the Welsh Government considered in its impact assessment on budget allocations for cost of living support measures such as the DAF?**
2. **Are there plans to collate and publish data on the number of claimants who are women?**
3. **What long-term action is the Welsh Government undertaking to tackle gender inequality here in Wales?**

---

[2] Neath Port Talbot County Borough Council recently published plans according to which Phase 3 will not be completed until 2030.
https://democracy.npt.gov.uk/documents/s103442/ESW%20Scrutiny%20Report%20-%20Expansion%20of%20Flying%20Start%20Childcare%20Phase%203.pdf

## 3. Third sector, VAWDASV and equality and human rights funding

3.1. The Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence budget has seen an additional £1.3m revenue and £0.9m capital funding in 2025-26. The draft budget allocated an additional £2m revenue and £2.9m capital funding to support the Third Sector. The Equality, Inclusion and Human Rights budget has been increased by £0.7m through the 2025-26 Draft Budget.

3.2. While these increases are welcome, pressures on the third sector and the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) specialist support services are at an all-time high and likely to increase with rises to employer national insurance contributions (NICs).

3.3. Employer NICs increases represent the third successive hit to charities in Wales, following from the loss of EU funding and the cost of living pressures. These have accelerated a worrying loss of expertise in the Welsh third sector, as exemplified by Chwarae Teg's closure last year.

3.4. Women dominate the third sector and specialist workforce and charities often provide public services when provision is cut at local government level. Women also comprise the majority of service users and support receivers, particularly for VAWDASV services.

**Potential questions**

1. **Is the Welsh Government confident that the funding levels are sufficient to halt the rapid loss of capacity in the Welsh third sector and protect the sustainability of support services?**
2. **How is this budget supporting third sector and VAWDASV organisations to mitigate the impacts of increasingemployer NICs?**

## 4. Gender Budgeting and Strategic Integrated Impact Assessments (SIIAs)

4.1. The deprioritisation of equalities issues within the 2024-25 Budget highlighted the urgent need for gender budgeting in Wales. Embedding an intersectional gendered lens in the budget process will ensure that spending decisions are subject to robust equality impact assessment, helping to avoid unequal gendered impacts. As the main source of information on the impact of Welsh Government funding decisions, improving the Strategic Integrated Impact Assessments (SIIA), is key to promoting transparency and accountability in the Welsh budgetary process.

4.2. *Gender budgeting:* Some positive steps have been made, including the development of an online gender budgeting resource for government officials and policymakers and the ongoing work to incorporate gender budgeting questions within the Welsh Government's departmental Equality and Human Rights Impact Assessment. However, we are still awaiting the publication of the evaluation of the Welsh Government's remaining two gender budgeting pilots – Young Person's Guarantee and E-Move – which were scheduled to end in 2022-23. The learning from these pilots is essential to progress the wider roll-out of gender budgeting within the Welsh Government.

4.3. *Strategic Integrated Impact Assessments (SIIAs):* We welcome the continued work by the Budget Improvement and Impact Advisory Group (BIIAG) to review the Strategic Integrated Impact Assessment (SIIAs). Both WWBG and WEN have been involved in the latest SIIA review and were pleased to see some improvements to this year's SIIA as a result. For example, its format was more coherent, the rationale behind key spending decisions was clearer,there was greater intersectional focus and evidence linked using in-text hyperlinks.

4.4. However, some issues with SIIAs remain. There was little to no discussion of any negative impacts of spending decisions or measures to mitigate these. While transparency of decision-making improved, it remains difficult to cross-reference spending decisions with actual budget lines, because the MEG tables do not provide enough detail and BEL headings do not always correspond to the terms used in the budget narrative. This makes it difficult to contextualise spending decisions and understand how spending has developed historically. More detailed information on the impact of specific spending decisions in each MEG is only published as part of the Ministerial evidence to Senedd scrutiny committees. This is generally after the timeframe during which civil society stakeholders can provide evidence to the Finance Committee.

**Potential questions**

1. **What work is the Welsh Government undertaking to progress the roll-out of gender budgeting and when can we expect the evaluation of the pilots to be published?**
2. **How does the Welsh Government plan to use the findings of these pilots to inform the wider roll out of gender budgeting?**
3. **What work is the Welsh Government undertaking to improve the transparency of budgetary decisions and their equalities impact, and to ensure civil society stakeholders can fully scrutinise these?**

**For more information please contact:**

**Hannah Griffiths**
Wales Women's Budget Group
Coordinator and Policy Assistant
Hannah@wenwales.org.uk

**Dr Jessica Laimann**
Women's Equality Network (WEN) Wales,
Policy and Public Affairs Manager
Jessica@wenwales.org.uk

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Vikki Howells AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**Minister for Further and Higher Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone MS
Committee Chair - Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru
SeneddEquality@senedd.wales

23 Ionawr 2025

Annwyl Jenny,

**Y Bwlch Cyflogaeth Anabledd a'r system addysg**

Diolch am eich llythyr yn ymwneud â'r ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd yng Nghymru. Rydym wedi ystyried eich ymholiadau ac wedi ymateb iddynt isod.

Yn ychwanegol at yr ymatebion manwl, hoffem bwysleisio ein cydymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys pob dysgwr anabl, yn cael ei gefnogi wrth iddo symud drwy ein system addysg ac ymlaen i gyflogaeth a hunangyflogaeth.

Drwy sicrhau bod cynhwysiant a thegwch yn cael eu hymgorffori'n llawn yn ein system addysg, ein nod yw gwella deilliannau pob dysgwr. Mae diwygiadau systemig i'r system addysg yn mynd rhagddynt yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a rhoi system Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ystyried pob dysgwr fel unigolyn sydd â chryfderau gwahanol a meysydd gwahanol i'w datblygu, ac mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i athrawon addysgu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion unigol pob plentyn. Ochr yn ochr â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r system ADY yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae angen darpariaeth dysgu ychwanegol arnynt i ddiwallu eu ADY yn cael cynllun statudol, sef cynllun datblygu unigol, i gynllunio a diogelu'r ddarpariaeth honno. Mae'r system ADY yn cael ei chyflwyno yn lle'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac mae'n seiliedig ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a Chod ADY Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r system addysg yng Nghymru a'r system ADY ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth i bobl ifanc symud drwy ein system addysg, rydym wedi cyflwyno'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth, gan gynnwys cyngor a chanllawiau a rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau penodol.

Mae *Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 yn nodi'r ffordd rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd, gan gynnwys sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i helpu pobl yng Nghymru i ymdopi â'r heriau sy'n gysylltiedig â gwaith y gallant fod yn eu hwynebu ac ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant ac uwchsgilio, chwilio am lwybr gyrfa gwahanol neu ddechrau eu busnes eu hunain.

Rydym hefyd wedi rhoi amrywiaeth o adnoddau ar waith i helpu cyflogwyr i ddeall y model cymdeithasol o anabledd, recriwtio a chadw gweithwyr anabl, a dysgu am wneud addasiadau rhesymol yn y gweithle.  Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan ein tîm o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, y mae gan bob un ohonynt brofiad bywyd o fod yn anabl neu ofalu am bobl anabl. Mae rhagor o adnoddau hefyd ar gael drwy Busnes Cymru a'i Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl.

Byddwch yn ymwybodol o'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, sydd wedi gweithio gyda phobl anabl ag arbenigedd, Sefydliadau Pobl Anabl, ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Ei ddiben oedd dod ag aelodau ynghyd i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau, a nodwyd yn adroddiad Drws ar Glo https://www.llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19 ac sy'n effeithio ar lawer o bobl anabl. Goruchwyliodd y tasglu 10 gweithgor mewn modd strategol, gan gynnwys y gweithgorau Cyflogaeth ac Incwm, Plant a Phobl Ifanc, a Theithio.

Mae'r tasglu wedi gweithio gyda mwy na 350 o randdeiliaid allanol a 200 o arweinwyr polisi ac mae wedi'i gefnogi gan Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru a'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Mae argymhellion y tasglu yn llywio cynllun gweithredu trawslywodraethol, yr ymgynghorir arno yn ystod y gwanwyn.

Er mwyn ymhelaethu ar hyn, rydym wedi rhoi ymateb manwl i bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn eich llythyr isod:

1. *Yr angen i sicrhau mynediad teg i gyfleoedd lleoliadau gwaith a'r angen i weithio gyda chyflogwyr i gyflawni hyn*

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad teg i gyfleoedd lleoliadau gwaith.

Drwy Gyrfa Cymru, rydym yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i bobl ifanc, gan gynnwys y rhain hynny ag anabledd, i'w helpu i sicrhau cyfleoedd gwaith – Cymorth Cyflogaeth | Gyrfa Cymru

Yn ychwanegol at gefnogi pobl ifanc, mae ein Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cymorth ymarferol i gyflogwyr ledled Cymru i'w helpu i gyflogi pobl anabl. Mae Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn cynnig gwasanaeth am ddim i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ledled Cymru.

Gall yr Hyrwyddwyr, a gefnogir gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru, gynnig help a chyngor ar faterion megis:

- Recriwtio cynhwysol
- Cymorth ariannol
- Cyngor ymarferol ar gadw staff ac addasiadau rhesymol yn y gweithle
- Sicrhau bod polisïau Adnoddau Dynol a gweithleoedd yn gynhwysol
- Hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd
- Helpu cyflogwyr i ennill statws arweinydd Hyderus o Ran Anabledd

Drwy Busnes Cymru, rydym hefyd wedi cyflwyno cymorth i gyflogwyr ddileu'r rhwystrau i gyfleoedd cyflogaeth, ac mae rhagor o fanylion am hyn wedi'u cynnwys yn yr atebion i'ch cwestiynau manylach isod.

2. *Eich asesiad o sut mae cynllun profiad gwaith Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 10 ac ym mlwyddyn 11 yn gallu cefnogi dysgwyr anabl? Pa ddata y gallwch eu rhannu gyda ni ynghylch cyfran y dysgwyr hynny sy'n anabl?*

Rhaid i'r cwricwlwm a gynigir gan ysgol ym mlynyddoedd 10 ac 11 gynnig dysgu a phrofiadau cytbwys i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr anabl. Dylai gael ei ddylunio gan ystyried pedair elfen yr hawl i ddysgu 14 i 16. Yn benodol, myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio ôl-16; a dysgu a phrofiadau ehangach ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Dylai hyn gwmpasu'r holl ddysgu a phrofiadau y bydd dysgwyr yn dod ar eu traws yn ystod eu taith 14 i 16.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ysgolion gynnig addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith mwy penodol ym mlynyddoedd 10 ac 11 i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith effeithiol yn cynnwys addysg gyrfaoedd sy'n briodol o safbwynt datblygiadol ac oedran, wedi'i hategu gan amrywiaeth eang o amgylcheddau a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith perthnasol. Er mwyn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol.

Drwy'r prosiect Adnewyddu a Diwygio, a oedd â'r nod o fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar addysg a hyfforddiant, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gyrfa Cymru gynnal prosiect Profiad Gwaith wedi'i Deilwra, er mwyn helpu i annog dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 i ailgydio yn eu hastudiaethau TGAU fel eu bod yn gallu symud ymlaen yn llwyddiannus i gam nesaf eu taith addysg a hyfforddiant. Rhwng 2022 a 2024, cafodd Gyrfa Cymru £517,000 ychwanegol i weithio gyda dwy ysgol ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cynnig 500 o leoliadau Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra. Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd dros 600 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra.

Ar gyfer 2024/25, sicrhaodd Llywodraeth Cymru £250,000 arall ar gyfer prosiect Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra, gan ei alluogi i barhau ar raddfa lai. Gofynnwyd i Gyrfa Cymru gynnig 250 o leoliadau ychwanegol i ddysgwyr, ar draws pum clwstwr o awdurdodau lleol. Gall Gyrfa Cymru nodi 55 o ddysgwyr o'i chofnodion sydd wedi cael lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra ac sydd ag anabledd.

Mae gan Gyrfa Cymru dîm o gynghorwyr ADY sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hopsiynau, gwneud penderfyniadau da am eu dyfodol a'u cefnogi i roi eu cynlluniau ar waith.

**Data**

Mae Adroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2022/23 yn dangos bod Gyrfa Cymru wedi cefnogi 2,096 o bobl ifanc anabl mewn addysg statudol ac 880 o bobl ifanc mewn addysg ôl-statudol 16-17 (disgwylir i adroddiad 2023/24 gael ei gyhoeddi y gwanwyn hwn).

Yn ystod 2023/24 roedd Gyrfa Cymru wedi rhyngweithio â 4,686 o bobl ifanc sydd â datganiad AAA / datganiad cyfatebol neu gynllun datblygu unigol ar lefel un-i-un. Fel rhan o'u cymorth ar gyfer ADY, mynychodd Gyrfa Cymru 3,612 o adolygiadau o'r broses drosglwyddo rhwng y gwahanol lefelau o addysg a dysgu gydag ysgolion, darparwyr, rhieni a phobl ifanc i sicrhau bod y broses drosglwyddo yn ddidrafferth.

Mae adran Fy Nyfodol ar wefan Gyrfa Cymru yn cefnogi dysgwyr ifanc hyd at Lefel Un ac yn cynnwys gwybodaeth am yrfaoedd sy'n hawdd ei darllen. Yn ystod 2023/24 cafodd y dudalen hon ei chyrchu gan 6,600 o ddefnyddwyr, ac ychwanegwyd naw fideo newydd i arddangos gwahanol swyddi, gan gynnwys animeiddiwr, gweithiwr swyddfa a hyfforddwr ffitrwydd.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni targedau eu dangosyddion perfformiad allweddol – gellir gweld yr adroddiad blynyddol diweddaraf drwy ddilyn y ddolen ganlynol: Ein hadroddiad blynyddol | Gyrfa Cymru

Yn ychwanegol at hynny, mae Gyrfa Cymru yn llunio astudiaethau achos sy'n dangos effaith ei gwaith, gan gynnwys y rheini ag anabledd. Rydym wedi cynnwys un astudiaeth achos o'r fath isod:

**Astudiaeth achos – Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra**

Lleoliad: Garej

Cafodd X ei atgyfeirio at Profiad Gwaith Wedi'i Dargedu gan ei fod yn dangos arwyddion o ymddieithrio yn yr ysgol. Mae X yn gwisgo mewnblaniad yn y cochlea ar gyfer ei glust chwith ac mae'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn yr ysgol oherwydd y nam ar ei glyw.

Ers dechrau yn yr ysgol, mae X wedi cynyddu nifer ei ddiwrnodau ac mae bellach yn mynychu'r lleoliad ddwywaith yr wythnos. Mae'r garej yn gefnogol iawn i X. Mae X yn rhoi help llaw dros y gwyliau ac yn cael canmoliaeth fawr gan y cyflogwr am ei foeseg waith. Mae cyfradd bresenoldeb isel X wedi cynyddu i 94% ers iddo ddechrau lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra. Noda'r ysgol 108 o gofnodion cadarnhaol a 49 o gofnodion negyddol a dywedodd fod y ffaith bod X yn mynychu'r lleoliad Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra ddwywaith yr wythnos yn ganlyniad gwych iddo, ei fod wedi magu hyder wrth gyfathrebu â'r staff a'i gyfoedion ers dechrau'r lleoliad, a'i fod yn hapusach yn yr ysgol.

Mae X yn teimlo bod ei leoliad yn ddiddorol iawn ac mae'n gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth y mae staff y garej wedi ei dangos ynddo wrth ganiatáu iddo weithio ar dasgau cymhleth gyda nhw. Dywedodd ei fod yn dechrau dysgu sut i ddatrys problemau. Dywedodd X ei bod yn deimlad gwych bod yn dda am wneud rhywbeth a'i fod yn teimlo'n hapusach ac yn fwy hyderus ers dechrau'r lleoliad. Mae'r garej yn falch iawn o'i gael yn y garej ac yn awyddus i gynnig cyfle iddynt pan fydd yn gorffen yn yr ysgol.

3. *Yn fwy cyffredinol, eich asesiad o sut mae'r rhan "Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith" o'r Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn cefnogi dysgwyr anabl.*

Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith effeithiol yn cynnwys addysg gyrfaoedd sy'n briodol o safbwynt datblygiadol ac oedran wedi'i ymwreiddio ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu (meysydd).

Yn ôl y canllawiau, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried amrywiaeth o ffactorau megis oedran y dysgwyr, eu gwybodaeth a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Maent hefyd yn nodi, er mwyn i ymarferwyr fanteisio i'r eithaf ar brofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, ei bod yn ddefnyddiol sicrhau bod profiadau yn hygyrch i bob dysgwr a'u bod yn ystyried anghenion a diddordebau penodol.

Mae'r canllawiau yn adeiladu ar hyn drwy nodi ei bod yn bwysig bod ymarferwyr, wrth ystyried profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith, yn herio eu safbwyntiau eu hunain yn ogystal â safbwyntiau dysgwyr, rhieni a gofalwyr am faterion megis ystrydebau yn y gweithle. Mae gwybodaeth am y farchnad lafur yn galluogi dysgwyr i fod yn ymwybodol o dueddiadau o ran cyflog, rolau a lleoliad. Dylai ysgolion a lleoliadau gynnwys gwybodaeth gyfredol a diduedd sy'n briodol o safbwynt datblygiadol am y farchnad lafur, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau bod addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn cael eu dylunio'n dda i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Mae Gyrfa Cymru yn cynnig pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith i bob person ifanc (gan gynnwys y rheini anabledd) mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig brif ffrwd i gytuno ar ddigwyddiadau pwrpasol a'u trefnu, megis ymweliadau â safleoedd cyflogwyr neu ymweliadau gan gyflogwyr ag ysgolion i sgwrsio â dysgwyr.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal cyfres o ffeiriau gyrfaoedd 'Beth Nesaf?' i ddysgwyr ag ADY. Nod y digwyddiadau hyn yw tynnu sylw at y cyflogwyr a'r darparwyr a all gynnig llwybrau cynnydd ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae'r cyflogwyr a'r darparwyr sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau yn cynnal gweithgareddau rhyngweithiol a diddorol sy'n galluogi'r dysgwyr i roi cynnig ar amrywiaeth o dasgau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd er mwyn dangos y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r adborth gan ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr bob amser yn gadarnhaol iawn. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnig gweithdai model rôl Syniadau Mawr Cymru i ddysgwyr ag ADY.

Mae gan Gyrfa Cymru nifer o adnoddau ar gael i gefnogi ysgolion i ddarparu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith, gan gynnwys;

- Pecyn cymorth Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith, adnodd i gefnogi pob athro, uwch dimau arweinyddiaeth a'r rhai sy'n cefnogi pobl ifanc, i wireddu ac ymgorffori Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'r adnodd yn cynnwys pecyn cymorth a blwch offer sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso darpariaeth addysg gyrfaoedd.
- Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru sy'n anelu at gefnogi pob ysgol a lleoliad sydd â dysgwyr 3 i 16 oed, i ddatblygu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith pwrpasol a pherthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r wobr yn cael ei threialu ar hyn o bryd yn barod ar gyfer 2026.

4. *I ba raddau y mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau trydydd parti i ddarparu profiadau cyfoethogi o ansawdd uchel i ddysgwyr, yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru? Pa ddata y gallwch eu rhannu gyda ni?*

**Ysgolion**
Mae'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn benodol y cyfle i gynnig cyfleoedd dysgu mwy unigoledig a theilwra'r hyn a gynigir, yn cefnogi arweinwyr ein hysgolion i sicrhau mwy o degwch a chynhwysiant i bob un o'n dysgwyr, gan gynnwys y rhain hynny ag anableddau.

Mae canllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru yn ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth gynnig addysg eang a chytbwys i bob dysgwr. Maent yn herio ysgolion i ddewis y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd fwyaf addas i gefnogi eu dysgwyr, gan godi disgwyliadau. Dylai profiadau dysgu o ansawdd uchel hybu annibyniaeth y dysgwyr, eu herio a chynnig cyfle iddynt lwyddo ar hyd eu taith ddysgu. Dylai'r profiadau hyn barchu a gwerthfawrogi natur unigryw pob dysgwr.

Mae Gyrfa Cymru yn dod ag ysgolion a busnesau ynghyd, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u cyfleoedd gyrfa, eu hysbrydoli a'u cymell. Mae Gyrfa Cymru yn cynnig y canlynol:

- Ymgyrch Partneriaid Gwerthfawr sy'n cydnabod cydberthnasau cynaliadwy rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth ychwanegol i helpu i gynnal a chryfhau cydberthnasau ac mae wedi ehangu'r ymgyrch i gynnwys trefniadau cydweithio rhwng athrawon a chyflogwyr, er mwyn helpu athrawon i feithrin dealltwriaeth well o'r byd gwaith sydd ohoni.
- Hyd at chwe gweithgaredd wedi'u harwain gan gyflogwyr ym mhob ysgol uwchradd, uned cyfeirio disgyblion ac ysgol arbennig. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwrpasol ac yn seiliedig ar ddata Career Check, gwybodaeth am y farchnad lafur ac anghenion yr ysgol. Maent yn cynnwys digwyddiadau ag un cyflogwr (cyflwyniadau, ymweliadau safle, ffug-gyfweliadau ac ati), digwyddiadau â sawl cyflogwr (rhwydweithio cyflym a diwrnodau carwsél), a mewnbwn penodol i gyfoethogi'r cwricwlwm.

- Datblygu naw her wedi'u harwain gan gyflogwyr ac yn seiliedig ar y sector i ymgorffori addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn partneriaeth â: Vishay (Lled-ddargludyddion cyfansawdd) ac Ysgol Gyfun Bryn Celynnog, Toyota (Uwch-weithgynhyrchu) ac Ysgol Treffynnon, a Banc Starling (Technoleg ariannol) ac Ysgol Gyfun Llangatwg. Mae'r heriau hyn wrthi'n cael eu treialu cyn eu cynnig i ysgolion eraill yn 2025. Bwriedir cynnal heriau eraill gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru Celtic Group, Bragdy Drop Bear a RWE Renewables.
- Ffeiriau gyrfaoedd rhanbarthol Beth Nesaf? i ddysgwyr ag ADY,
- Mynediad at lyfrgell gynhwysfawr o fideos gan gyflogwyr.
- Helpu ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr.
- Rhaglen Profiad Gwaith Wedi'i Deilwra.
- Syniadau Mawr Cymru, sy'n cynnwys her fenter genedlaethol mewn ysgolion cynradd ac o leiaf 1,000 o weithdai model rôl gydag entrepreneuriaid mewn ysgolion uwchradd bob blwyddyn. Arweinir y gweithgaredd gan rwydwaith o fwy na 400 o entrepreneuriaid, neu Fodelau Rôl, sy'n rhannu eu profiadau busnes a'u taith bersonol fel entrepreneuriaid ac yn dod â meysydd o'r cwricwlwm yn fyw. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys entrepreneuriaid anabl, fel Mark Williams o Limb-art yng Ngogledd Cymru, i ysbrydoli'r dysgwyr a rhannu eu profiadau bywyd.
- Y prosiect cyn-fyfyrwyr.

Ym mis Hydref 2024, lansiodd Gyrfa Cymru Bluestone ar ei hadnodd Crefft Gyrfaoedd. Gall dysgwyr bellach archwilio'r amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael ym maes twristiaeth a lletygarwch. O achubwyr bywydau i gogyddion, cynorthwywyr sba a ffotograffwyr, gall dysgwyr bellach archwilio'r rolau ac ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar eu cyfer a sut y gellir trosglwyddo'r sgiliau hyn o un yrfa i'r llall.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn helpu cyflogwyr i ymgysylltu ag ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad pwrpasol ar weithio ym maes addysg a sut i ddylunio eu mewnbwn, gyda chyfleoedd hyfforddiant os oes angen.
- Adran benodol ar ein gwefan sy'n llawn gwybodaeth i gyflogwyr.
- Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr blynyddol i gydnabod a hyrwyddo cyfraniadau cyflogwyr.

**Data**

Mae'r holl ddata cyhoeddedig sydd ar gael wedi'i ddarparu yn ein hymateb. I grynhoi'r rhan hon, wrth ddarparu cymorth i ysgolion, mae Gyrfa Cymru wedi cynnal dros 1,500 o sesiynau i fwy na 26,000 o ddysgwyr, a thros 1,000 o ddigwyddiadau â chyflogwyr. Yn ychwanegol, mae Syniadau Mawr Cymru yn cynnwys her fenter genedlaethol mewn ysgolion cynradd ac o leiaf 1,000 o weithdai model rôl gydag entrepreneuriaid mewn ysgolion uwchradd bob blwyddyn.

**Addysg Bellach (AB)**

Mae Hyrwyddwyr Menter sy'n gweithio yn y Biwroau Cyflogaeth a Menter ym mhob coleg addysg bellach yng Nghymru wedi'u hariannu i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth fel dewis gyrfa, cynnig cyfleoedd i ddysgu ac ymarfer sgiliau entrepreneuriaeth ac archwilio hunangyflogaeth fel dewis gyrfa, gan gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd am ddod yn hunangyflogedig neu ddechrau busnes i wneud hynny. Mae'r cyfrifoldeb am y Biwroau wedi cael ei drosglwyddo i Medr ym mis Awst 2024. Mae'r Hyrwyddwyr Menter yn gweithio ar draws y garfan o fyfyrwyr gan sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu cael gafael ar gymorth ac arweiniad drwy dargedu cyrsiau sydd â mwy o fyfyrwyr anabl, gan ymateb pan fydd tiwtor wedi gofyn am gymorth penodol ar gyfer myfyriwr neu grŵp o fyfyrwyr a hyrwyddo cyflawniadau myfyrwyr anabl.

*Biwroau Cyflogaeth a Menter*

Amcanion allweddol y Biwroau yw cynnig gwasanaeth recriwtio i gyflogwyr lleol a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr mewn colegau gael gwaith a mynd yn hunangyflogedig.

Mae'r cyllid yn cefnogi costau hyrwyddwr entrepreneuriaeth i wneud y canlynol:

- gweithio gyda dysgwyr (a'r rhai sy'n gadael y sefydliad) i hyrwyddo entrepreneuriaeth a helpu staff i ymgorffori entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm;
- darparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr a phobl sy'n gadael y sefydliad i ddatblygu eu syniadau entrepreneuriaeth a'u gwybodaeth am fusnes, a gwella'r llwybrau a'u cefnogi i hunangyflogaeth a chychwyn busnes.

Ac mae'r Biwroau Cyflogaeth a Menter yn gwneud y canlynol:

- helpu cyflogwyr i gysylltu â myfyrwyr a datblygu gweithlu'r dyfodol;

- darparu pecyn o gyfleoedd i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser i feithrin sgiliau cyflogadwyedd a menter hanfodol. Mae'r Biwroau'n rhan o Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru - ymrwymiad i roi cymorth i bawb o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, cael gwaith neu fynd yn hunangyflogedig;

- mae'r Biwroau hynny sy'n gweithredu yn y Coleg Addysg Bellach yng Nghymru, yn gwahodd cyflogwyr i gysylltu â nhw i gwrdd â myfyrwyr a thrafod cyfleoedd cyflogaeth a allai fod ganddynt yn eu sefydliadau;

- mae pob Biwro yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i fyfyrwyr yn eu coleg ond maen nhw hefyd yn helpu i feithrin cyfleoedd parhaus ar y cyd â chyflogwyr yn eu rhanbarth..

**Addysg Uwch (AU)**

Mae prifysgolion yn parhau i ddarparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n cynnwys myfyrwyr anabl. Fel y nodir yn y cylchlythyr Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr: Cynlluniau Cyflawni a Dyraniadau, roedd £2m ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Mae hyn yn adeiladu ar y gweithgareddau a gyflanwyd ym mlwyddyn academaidd 2022/23 yn erbyn Cylchlythyr W22/21HE.

Er bod gan brifysgolion hyblygrwydd i adeiladu eu darpariaeth a'u cynnig i ddiwallu anghenion eu myfyrwyr orau y gallent, disgwylir i'r cymorth gynnwys:

- mentora;
- darparu amrywiaeth o weithgareddau cyflogadwyedd ar y cyd, gan gynnwys cymorth entrepreneuriaeth;
- cyfeirio / cefnogi mynediad at gyflogadwyedd craidd pob prifysgol;
- arweiniad gyrfaoedd, darpariaeth ar gyfer menter a lles;
- darparu cyllid ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â datblygu cyflogadwyedd a/neu brofiad gwaith i sicrhau nad yw cyllid yn rhwystr rhag elwa ar y cymorth;
- profiad gwaith, o wahanol hyd a fformat.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol er mwyn helpu pob sefydliad AU yng Nghymru i hyrwyddo entrepreneuriaeth, cysylltu ag entrepreneuriaid, a chefnogi entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr a graddedigion. Maent yn helpu graddedigion i symud ymlaen i entrepreneuriaeth a dechrau busnes; ac mae pob un ohonynt yn cyhoeddi adroddiad effaith bob blwyddyn.

5. *Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dysgwyr anabl yn cael yr hyblygrwydd a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i gael mynediad i addysg bellach? Beth yw eich disgwyliadau o sut mae AB, AU a'u hadrannau gyrfaoedd yn cefnogi dysgwyr anabl ymlaen i interniaethau a phrentisiaethau? A sut ydych chi'n ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn hyn o beth?*

Mae gan bob coleg a phrifysgol gynlluniau cydraddoldeb ar waith ac maent yn gweithio ar y cyd i gyflawni eu hymrwymiadau, gan gynnwys hyrwyddo mynediad teg a chyfle cyfartal. Mae Medr yn adolygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gan gynnwys y nodwedd warchodedig anabledd.

Mae'r colegau'n cydweithio ledled Cymru i gyflawni eu hymrwymiadau cydraddoldeb. Maent yn mynychu Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Addysg Bellch ColegauCymru.

Mae'r rhwydwaith hwn yn ystyried materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn adrodd i Fforwm y Penaethiaid ar gamau gweithredu i sicrhau cynnydd.

Mae'r prifysgolion yn gweithio ar y cyd i gyflawni ymrwymiadau cydraddoldeb, gan gynnwys ehangu mynediad i bobl heg gynrychiolaeth ddigonol, a nodi bylchau cydraddoldeb mewn cyrhaeddiad. Mae ganddynt rwydweithiau cefnogol ac Arweinwyr Cydraddoldeb ar waith i gefnogi a monitro cynnydd.

**Addysg Bellach**

Ym mis Awst 2024, cyhoeddwyd Canllawiau Cymorth Ychwanegol i ddarparwyr addysg bellach i'w helpu i weithio mewn modd hyblyg a sicrhau cymorth i gynnig darpariaeth hygyrch i ddysgwyr. Maent hefyd yn helpu gyda chostau gwneud addasiadau rhesymol i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Caiff gweithgareddau mewn colegau eu cynnal yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n cynnwys:

- Digwyddiadau a Ffeiriau Gyrfaoedd Pwrpasol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu oriau tawel i'r rhai sy'n dod i brif ddigwyddiadau.
- Cynnig hyfforddiant dwys i fyfyrwyr ag anableddau.
- Adnoddau a sesiynau wedi'u teilwra fel y bo'n briodol, a sesiynau gwybodaeth ar hawliau anabledd ac addasiadau yn y gweithle.
- Mae cyflogwyr sy'n hysbysebu drwy golegau yn ymrwymedig i ddilyn y Polisi Gwaith Teg yng Nghymru.
- Gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi a hwyluso mentrau recriwtio cynhwysol.
- Gweithio'n benodol gyda Chyflogwyr Hyderus o ran Anabledd i greu lleoliadau i fyfyrwyr ag anableddau, gan sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried.

Mae enghreifftiau penodol o weithgareddau yn cynnwys:

- Cefnogodd Grŵp Llandrillo Menai 31 o unigolion ag anabledd i ddechrau prentisiaeth drwy gynnig cymorth ychwanegol i gefnogi cyflogwyr i ddileu rhwystrau i ddysgwyr yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd.
- Estynnodd Coleg y Cymoedd wahoddiad i sefydliadau Hyderus o ran Anabledd arddangos a chynnig gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ei ffair gyrfaoedd flynyddol, gan gynnwys sefydliadau megis Drive, Maximus a ‘Project SEARCH’ PHS, sef interniaeth â chymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc 18-24 oed ag ADY a/neu Awtistiaeth.
- Mae Coleg Merthyr Tudful yn cefnogi dysgwyr Rhaglen Interniaeth â Sgiliau Byw'n Annibynnol, lle maent yn cael y cyfle i ddilyn interniaethau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.
- Mae Coleg Merthyr Tudful hefyd yn gweithio'n agos gyda Maximus er mwyn helpu dysgwyr ag ADY i symud ymlaen i fyd gwaith. Mae Maximus yn cefnogi dysgwyr drwy fynd i ddigwyddiadau Gyrfaoedd ac ADY lle maent yn cynnig cymorth ac adnoddau wedi'u teilwra i helpu i ddod o hyd i waith.

**Addysg Uwch**

Mae prifysgolion yn canolbwyntio ar ymgorffori cyflogadwyedd yn y cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Mae adrannau gyrfaoedd yn gweithio gyda myfyrwyr anabl i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth a chyngor priodol i gyflawni deilliannau llwyddiannus yn unol â'u cynlluniau gyrfa pan fyddant yn graddio, gan gynnwys cyflogaeth, ineterniaethau, hunangyflogaeth a/neu astudiaethau pellach.

Mae prifysgolion hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i gynnig ymyriadau wedi'u targedu i'w myfyrwyr anabl i ddiwallu eu hanghenion o ran gyrfa a chyflogadwyedd.

Mae cyllid Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr gan Medr yn galluogi prifysgolion i gynnig cymorth wedi'i deilwra, gan gynnwys profiad gwaith, i'r rheini o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys myfyrwyr anabl, er mwyn gwella eu cyflogadwyedd a'u helpu i sicrhau gweithgarwch ar lefel gradd pan fyddant yn gadael addysg uwch, a'i gynnal. Mae hyn wedi cynnwys yr e-Hwb Cyflogadwyedd – adnodd i fyfyrwyr sy'n dymuno gweithio yng Nghymru. Mae wedi ymrwymo i helpu myfyrwyr ar hyd eu llwybr personol i lwyddiant, ac mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr gan gynnwys:

- profiad gwaith,
- hyfforddiant ar yrfaoedd,
- rhaglenni datblygu sgiliau,
- cysylltiad uniongyrchol â chyflogwyr.

Mae'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach yn bartneriaeth rhwng addysg bellach, addysg uwch a phartneriaid addysgol eraill sy'n gweithio ar y cyd i ehangu mynediad at bob math o addysg uwch, er mwyn annog dysgwyr mewn ysgolion a cholegau i ystyried y dyfodol a'u dyheadau addysg, yn ogystal â datblygu sgiliau academaidd a mentora.

Fe'i hariennir gan Medr, ac mae'n cynnwys pob sefydliad addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Maent hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cyflogwyr, ysgolion a sefydliadau'r trydydd sector i wella canlyniadau addysg dysgwyr.
Mae'n rhaglen rhanbarthol ar gyfer y tymor hir i ehangu'r mynediad i addysg uwch ac i sgiliau lefel uwch. Ei nod yw cynyddu'r nifer o bobl sy'n dechrau rhaglen addysg uwch o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys myfyrwyr anabl, trwy godi dyheadau a datblygu sgiliau addysgol a chreu cyfleoedd astudio arloesol a llwybrau dysgu i addysg uwch.

**Medr**

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb Medr yn ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n helpu i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol integredig a theg, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyfle cyfartal.

Bwriad eu Cynllun Strategol yw pennu cyfeiriad a rhoi ymdeimlad o flaenoriaeth – a bydd yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gweithredol, a ddatblygwyd gan Medr, a fydd yn darparu mwy o fanylion am fonitro cynnydd a sicrhau bod ffrydiau gwaith unigol yn cael eu darparu.

**Prentisiaethau**

Ers mis Medi 2024, mae Gyrfa Cymru wedi cynnig cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd i bob person ifanc yng nghyfnod allweddol 4 cyn iddo adael addysg statudol. Mae hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth ddiduedd am yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt o ran eu llwybr yn y dyfodol, gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau a rhaglen Twf Swyddi Cymru+, fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu camau nesaf. I'r rheini mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau, bydd Gyrfa Cymru yn trafod yr amser gorau i ddechrau gweithio gyda pherson ifanc. I rai, bydd hyn ym Mlwyddyn 9 oherwydd mae'n bosibl y bydd angen iddynt dreulio cryn dipyn o amser yn gweithio gyda chynghorydd, ond i eraill, gall fod yn hwyrach yn eu haddysg.

Caiff cymorth a chyngor ar yrfaoedd eu teilwra at anghenion unigolyn, ond gallent gynnwys:

- Cymorth i feithrin sgiliau rheoli gyrfa, megis sgiliau cynllunio a gwneud penderfyniadau
- Arweiniad i helpu person ifanc i nodi pa fath o waith y byddai'n hoffi ei wneud a sut y gallai gyrraedd y nod
- Cymorth ymarferol i sicrhau bod person ifanc yn pontio'n dda o'r ysgol
- Cyfeirio/atgyfeirio at asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau cymorth ychwanegol
- Eirioli ar ran unigolyn
- Negodi â darparwyr ar ran unigolyn
- Amlinellu opsiynau i rieni

I bob person ifanc yng nghyfnod allweddol 4 sydd wedi nodi ei fod yn bwriadu gadael yr ysgol ac yn awyddus i ymuno â'r farchnad lafur, mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth dilynol parhaus a all gynnwys helpu gyda sgiliau cyfweliad/ceisiadau.

Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2024, cynhaliodd Gyrfa Cymru 41,000 o gyfweliadau cyfarwyddwyd â mwy na 30,000 o ddysgwyr, gan gynnwys 34,460 o gyfweliadau cyfarwyddyd â 25,244 o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4, 52% o ddysgwyr ym Mlwyddyn 11, a 2,621 o gyfweliadau â 1,945 o ddysgwyr ag ADY.

Rydym yn gweithio i gynyddu amrywiaeth mewn prentisiaethau a hyrwyddo symudedd cymdeithasol fel buddsoddiad mewn llwyddiant economaidd a thwf parhaus. Er enghraifft, mae'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol wedi helpu i gynyddu nifer y prentisiaid anabl.
Yn 2022/23, roedd 11.6% o'r holl ddysgwyr a ddechreuodd raglenni dysgu prentisiaeth yn ddysgwyr a oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd a/neu anabledd dysgu, o gymharu â 5.7% ym mlwyddyn academaidd 2016-17.

Mae'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr hefyd yn annog cyflogwyr i recriwtio pobl anabl drwy gynnig cymhellion ariannol a chymorth yn y gwaith ar gyfer y garfan hon i'w galluogi i gwblhau eu prentisiaeth yn llwyddiannus.

Mae Prentisiaethau a Rennir â Chymorth yn cynnig cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl ag anghenion dysgu a chyflogaeth dwys ac amrywiol. Gall y cymorth gael ei ddarparu drwy hyfforddwyr swyddi neu adnodd arbenigol arall.

Rydym hefyd wedi cytuno i addasu Manyleb Safonau Prentisiaeth Cymru yn ddiweddar. Mae'r addasiadau hyn yn cynnwys ehangu'r gofynion mynediad o ran sgiliau sylfaenol ar gyfer lefel 2 a lefel 3 i gynnwys pobl ag anableddau ac anawsterau dysgu Bydd hyn yn creu cynnig mwy cynhwysol ac yn cynyddu nifer y cyfranogwyr drwy alluogi pobl anabl i fanteisio ar y rhaglen prentisiaethau.

O ran ymgysylltu, mae Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet yn gweithio tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau Prif Weinidog Cymru sy'n berthnasol i bob portffolio. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chyd-Weinidogion, er mwyn rhoi gwybod iddynt am feysydd o gydgyfrifoldeb trawsbynciol. Mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar feysydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Disgwylir hefyd i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru gydweithio'n agos i nodi bylchau mewn darpariaeth a mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

6. *Beth yw goblygiadau ddeddfwriaeth a chanllawiau Anghenion Dysgu Ychwanegol cymharol newydd, os o gwbl, ar gyngor a chymorth gyrfaoedd i bobl ifanc anabl?*

Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi creu system unedig i blant a phobl ifanc 0-25 oed gyda Chynllun Datblygu Unigol sy'n dilyn plentyn a pherson drwy bob cam o'i addysg. O fis Medi 2025, bydd gan bob person anabl ag ADY Gynllun Datblygu Unigol. Mae Gyrfa Cymru wedi adolygu ac ailgysoni ei chymorth a'i chyngor ar yrfaoedd yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth newydd.

Mae Gyrfa Cymru wedi nodi cynnig clir ochr yn ochr â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith, ac mae wedi rhannu'r cynnig hwnnw ag ysgolion a theuluoedd. Mae gan bob person ifanc yr hawl i gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddwyd ynghylch gyrfaoedd gan Gyrfa Cymru, a hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn, dros fideo, ac yn ddigidol. Mae gan Gyrfa Cymru hefyd dîm o gynghorwyr ADY sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau. Mae pob cynghorydd gyrfaoedd yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hopsiynau, gwneud penderfyniadau da am eu dyfodol, a gwybod sut i roi eu cynlluniau ar waith. Gall y gwaith hwn ddechrau'n gynt na Blwyddyn 11 pan fydd hynny'n briodol.

I bobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY, mae Gyrfa Cymru yn cynnig bod yn rhan o adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Unigol ac mae wedi nodi'r rhai sy'n gadael yr ysgol i ymuno â'r farchnad lafur fel grŵp a blaenoriaeth. Yn ystod yr adolygiadau hynny, gall Gyrfa Cymru gyfrannu at elfen bontio'r Cynllun Datblygu Unigol, eirioli ar ran y person ifanc a rhoi gwybod i'w rieni am y cyfleoedd sydd ar gael. Y flwyddyn hon, gan fod pobl ifanc â Chynlluniau Datblygu Unigol bellach yn y coleg, mae Gyrfa Cymru hefyd wedi cynnig bod yn rhan o adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Unigol mewn colegau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y coleg i ymuno â'r farchnad lafur.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, cynhaliodd Gyrfa Cymru 1,445 o gyfweliadau â dysgwyr ag ADY ym mhob grŵp blwyddyn a lleoliad (43 yn CA3, 117 yn CA4, 249 mewn addysg ôl-16, 131 mewn AB). Wrth symud tuag at roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn llawn, mae nifer y cyfweliadau a gynhelir yn cynyddu wrth i'r ffocws ar gyfer gwaith Gyrfa Cymru symud oddi ar Gynlluniau Dysgu a Datblygu a cheisiadau am gyllid tuag at wneud mwy o waith uniongyrchol gyda phobl ifanc. Cymerodd Gyrfa Cymru hefyd ran mewn 218 o adolygiadau o ADY, yn ogystal â chynnal bron 5,000 o ryngweithiadau eirioli a chydgysylltu ar ran pobl ifanc.

7. *Unrhyw wybodaeth arall yr hoffech dynnu ein sylw ati o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o’r ysgol i fyd gwaith i bobl anabl?*

**Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol**

Mae mynd ar drywydd argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaeth ac adroddiad Pontio i Fyd Gwaith yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau adroddiad yn amlinellu lle y gellid gwneud gwelliannau i sicrhau bod pob dysgwr yn pontio'n fwy didrafferth o'r ysgol i fyd gwaith, gan gynnwys pobl anabl.

Ers haf 2024, rydym wedi creu gweithgorau mewnol ac allanol bach (Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Medr hyd yma – gyda'r nod o ehangu'r aelodaeth yn ôl yr angen) i edrych yn fanwl ar yr argymhellion ac ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r sector. Bydd y gweithgorau yn allweddol i oruchwylio'r broses o roi'r argymhellion a amlinellir yn y ddau adroddiad ar waith.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o gyd-ddibyniaethau yn gysylltiedig â rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r gydberthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Medr yn bwysig iawn yn hyn o beth.

Mae'r Canllawiau ar Ddysgu 14 i 16, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, yn nodi ein polisi ar gyfer dysgu ac addysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11, ochr yn ochr â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgolion a fydd yn rhan o ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Nod y canllawiau yw helpu ysgolion i ddylunio eu cwricwlwm i ddysgwyr 14 i 16, y bydd angen iddo fod ar waith erbyn mis Medi 2025.
Mae pwysigrwydd blynyddoedd 10 ac 11 yn nhaith addysg dysgwyr yn hysbys, yn enwedig y ffordd y mae eu dewisiadau a'u cyflawniadau yn gallu dylanwadu ar eu llwybrau yn y dyfodol. Felly, mae'r canllawiau yn cyflwyno'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 (‘yr Hawl i Ddysgwyr’): y dysgu y bydd pawb ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn ei gyflawni o dan y Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal â chynnig eang o gymwysterau, mae'r hawl hefyd yn cynnwys sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth i ddeall ei gryfderau a'i ddiddordebau, ac i gynllunio ei gamau nesaf pan fydd yn gadael addysg orfodol yn 16 oed, er mwyn ei helpu yn ystod y cyfnod pwysig hwn.

Drwy'r canllawiau, gwnaethom nodi ein disgwyliadau cenedlaethol clir er mwyn helpu i sicrhau cwricwlwm cyson a theg i ddysgwyr ledled Cymru, gyda phob ysgol yn gwerthfawrogi'r un pethau sy'n cyfrannu at gynnydd dysgwr a'i allu i symud ymlaen yn llwyddiannus.

Mae'r dysgwr wrth wraidd y canllawiau ar ddysgu 14 i 16, sy'n rhan o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, a cheir ffocws clir ar gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd ac i ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau sydd ar gael iddo ar ôl gadael addysg orfodol yn 16 oed.

**Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl**

Un o amcanion strategol yr Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yw gweithio gydag arweinwyr polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i gyfrannu gwybodaeth a phrofiadau bywyd i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisïau ehangach Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar gyflogaeth pobl anabl. Mae'r hyrwyddwyr yn gwneud hyn drwy gefnogi gwaith Bwrdd y Warant i Bobl Ifanc a'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru. Mae hefyd wedi meithrin cydberthynas waith effeithiol â Gyrfa Cymru ac yn 2025, bydd yn archwilio cyfleoedd i weithio'n agosach gyda Medr.

**Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru**

Mae ein prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig rhaglen o weithgareddau sy'n gysylltiedig â Chystadlaethau Sgiliau sy'n codi ymwybyddiaeth o addysg alwedigaethol a llwybrau hyfforddiant a gyrfa.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a hwyluso dulliau ymgysylltu a chydweithio rhwng ysgolion, dysgwyr a chyflogwyr er mwyn ennyn hyder a meithrin gwybodaeth am fyd gwaith, a helpu dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfaoedd a'u dyfodol. Yn benodol, mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, prentisiaid a hyfforddeion ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) herio a meincnodi eu sgiliau drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau Sgiliau Cynhwysol / Sgiliau Sylfaenol, yn lleol ac yn genedlaethol ar draws amrywiaeth o sectorau.

Yng Nghymru, mae Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn cynnal naw cystadleuaeth Sgiliau Cynhwysol / Sgiliau Sylfaenol, o Arlwyo a'r Cyfryngau i Waith Pren a Sgiliau Byw'n Annibynnol. Ym mis Ionawr 2024, cymerodd dros 200 o ddysgwyr o bob cwr o Gymru ran yn y cystadlaethau hyn.

8. *Sut ydych chi'n ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i sicrhau bod pobl ifanc yn cael ystod mor eang â phosibl o opsiynau ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed? Er enghraifft, rydym wedi clywed pryderon am 'ymyl dibyn' sy'n wynebu pobl anabl wrth gael mynediad i leoliadau a chynlluniau penodol â chyfyngiad oed e.e. Twf Swyddi Cymru? Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ehangu mynediad i bobl anabl o bob oed?*

Fel y nodwyd eisoes, mewn ymateb i gwestiwn 5, mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn gweithio'n agos â'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Disgwylir hefyd i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru weithio'n agos â'i gilydd i nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth a mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â nodi'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gobeithio bod hyn wedi'i adlewyrchu yn natur drawsbynciol y gwaith sy'n cael ei wneud, fel y nodir yn yr ymatebion i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd.

**Twf Swyddi Cymru+**

Cafodd rhaglen Twf Swyddi Cymru+ ei chaffael yn wreiddiol yn 2021, a'r ystod oedran a nodwyd yn y dogfennau tendro oedd 16-18. O ganlyniad i effeithiau'r pandemig, cafodd yr ystod oedran ei hymestyn i alluogi pobl ifanc 19 oed i fanteisio ar y rhaglen hefyd. Fodd bynnag, ni ellir newid yr ystod oedran ymhellach gan y byddai hyn yn newid yr hyn a gynigir, a allai arwain at her gyfreithiol gan ddarpar gyflenwyr.

Bydd unrhyw raglen a roddir ar waith o 2027 ymlaen yn ystyried enghreifftiau o arferion gorau ac yn elwa ar wersi a ddysgwyd wrth ddarparu'r cymorth cyflogadwyedd presennol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer carfanau penodol, er enghraifft y cymorth sydd ei angen ar bobl anabl.

Fel rhan o'r rhaglen, rydym yn cyhoeddi data ar nifer y cyfranogwyr a'u cyfansoddiad, gan gynnwys y rheini ag anabledd. Gellir gweld yr wybodaeth hon drwy ddilyn y ddolen ganlynol – Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 | LLYW.CYMRU

**Yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol**

Gwnaethom gyhoeddi ein hymateb i'r Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol ar ddiwedd mis Ebrill 2024 ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion dysgwyr a'r economi sy'n newid.

Rydym wrthi'n trafod y ffordd orau o roi'r argymhellion hyn ar waith yn unol ag ymrwymiadau strategol cysylltiedig, gan gynnwys ein cenhadaeth economaidd, gofynion datblygu sgiliau cysylltiedig a nifer cynyddol o gyfranogwyr.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael profiad dysgu cadarnhaol, er mwyn iddo allu symud ymlaen yn hyderus i'w gamau nesaf mewn addysg a/neu gyflogaeth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru i bennu'r ffordd orau o sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd ynghylch gyrfaoedd ar gamau pontio allweddol; gan wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r holl lwybrau sydd ar gael, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu.

At hynny, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn gweithio i dreialu mapiau trywydd ar gyfer meysydd galwedigaethol. Pan fydd canfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u hystyried, y gobaith yw y bydd y mapiau trywydd hyn yn cael eu datblygu ymhellach a'u cynnwys ar lwyfan digidol addas fel eu bod yn hygyrch i ddysgwyr a rhanddeiliaid, ac yn ennyn eu diddordeb.

**Busnes Cymru**

Mae gan Syniadau Mawr Cymru Gronfa Cymryd Rhan i gefnogi cleientiaid y mae angen help ychwanegol arnynt i fanteisio ar y cymorth busnes. Mae hyn wedi helpu gyda chostau i ddileu rhwystrau i gleientiaid, gan gynnwys gwasanaeth cyfieithu, cludiant, gofalwyr a chymorth ymarferol i fynd i ddigwyddiadau neu gyfarfodydd un i un, a chymryd rhan ynddynt.

Fel rhan o'r ymrwymiad i'r Rhaglen Lywodraethu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio, mae Busnes Cymru yn gweithio'n agos gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth i sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu ac yn ystyried anghenion pobl anabl. Mae'r Cynghorwyr Busnes yn gweithio'n agos gyda'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a'r Cynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yng ngwasanaeth Busnes Cymru.

Mae Busnes Cymru ac Anabledd Cymru wedi llunio canllaw arferion da i gefnogi entrepreneuriaid anabl. Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor ymarferol i sefydliadau cymorth busnes a chynghorwyr ar y ffordd orau o ymgysylltu â phobl anabl sy'n dechrau eu busnes eu hunain, yn ei gynnal neu'n ei dyfu yng Nghymru, a'u cefnogi https://businesswales.gov.wales/cy/pynciau-a-chyfarwyddyd/cyflogi-pobl-a-gwella-sgiliau/cydraddoldeb/cefnogi-merched-yng-nghymru/y-canllaw-arferion-da-cefnogi-entrepreneuriaid-anabl-yng-nghymru

Mae Busnes Cymru yn cynnig cymorth dechrau busnes er mwyn helpu unigolion i oresgyn unrhyw rwystrau i hunangyflogaeth; ac mae'n gweithio gyda busnesau i wella arferion cyflogaeth drwy gyngor arbenigol ar gydraddoldeb ac adnoddau dynol ac yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl.

Gellir cael cymorth arbenigol i wella arferion gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, sy'n gweithio ledled Cymru ac mae'n cynnig cymorth wedi'i deilwra at anghenon y cleient ar ffurf sesiynau un i un neu gyfarfodydd staff. Mae hyn yn rhan o wasanaeth cynghori ehangach ar gyflogaeth, sgiliau a gwaith teg, sy'n cynnwys ysgogi prosesau creu swyddi a gwella polisïau ac arferion cyflogaeth mewn perthynas ag ymgyrchoedd recriwtio a chadw cynhwysol, gan annog busnesau i adolygu'r adduned cydraddoldeb a chynlluniau ehangach megis Hyderus o ran Anabledd.

Rydym hefyd yn darparu cyllid i Cwmnïau Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu cymorth busnes arbenigol pwrpasol i fentrau cymdeithasol. Mae Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn cefnogi mentrau cymdeithasol sy'n helpu a/neu'n cyflogi pobl ag anableddau ac mae'n cynnig gwasanaeth hunangyflogaeth a hunangyflogaeth â chymorth sy'n cynnwys cymorth ychwanegol i bobl sy'n byw gyda chyflyrau niwroamrywiol. Mae'r pecyn cymorth yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan bobl ledled Cymru a gwella eu bywydau.

Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo cyfleoedd hunangyflogaeth a chyflogaeth i bobl anabl drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau a sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chymorth cynghori Busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ac arweiniad ar wefan Busnes Cymru ar gefnogi pobl anabl yn y gweithlu Cyflogaeth Pobl Anabl | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru). Mae'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl wedi dechrau prosiect yn ddiweddar i adolygu a diweddaru'r holl gynnwys ar-lein, a bydd cynnwys diwygiedig yn cael ei gyhoeddi drwy gydol 2025.

Mae Busnes Cymru wedi datblygu modiwl ar-lein er mwyn helpu cyflogwyr i ddysgu mwy am y model cymdeithasol o anabledd *Cwrs: Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (llyw.cymru)* Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu'r hyfforddiant hwn i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus.

*Casgliad*
Rydym yn gobeithio ein bod wedi rhoi ymateb cynhwysfawr i'r ymholiadau a amlinellwyd yn eich llythyr ac wedi nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pob dysgwyr, yn enwedig y rheini ag anabledd.
Yn ei dro, byddwn yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc Ac Addysg; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



**Vikki Howells AS/MS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

Lynne Neagle
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Annwyl Vikki a Lynne,

12 Rhagfyr 2024

**Y Bwlch Cyflogaeth Anabledd a'r system addysg**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrthi'n llunio adroddiad ar ein hymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd. Un thema bwysig fu rôl ysgolion a cholegau AB yn ogystal â chyflogwyr wrth lunio dyheadau a disgwyliadau myfyrwyr anabl mewn perthynas â throsglwyddo o addysg i fyd gwaith a rhagolygon swyddi yn y dyfodol.

Cawsom dystiolaeth a oedd yn pwysleisio'r angen i sicrhau mynediad teg i gyfleoedd lleoliadau gwaith a'r angen i weithio gyda chyflogwyr i gyflawni hyn.[1] Rydym yn poeni hefyd ar ôl clywed y gall myfyrwyr anabl yn aml golli cyfleoedd lleoliadau neu eu bod yn cael eu neilltuo mewn ystod gul o sectorau sy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw addasiadau angenrheidiol.[2]

O ran disgwyliadau, dywedodd Gerraint Jones-Griffiths, sy'n Llysgennad Engage to Change dros Anabledd Dysgu Cymru, wrthym bod plant ifanc anabl bob amser yn dweud nad ydynt yn gwybod beth yr hoffent ei wneud pan fyddant yn hŷn ac nad oes neb erioed wedi gofyn iddynt.[3]

[1] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 14 Hydref, paragraffau 134 - 139, 212 - 213

[2] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 7 Hydref, paragraffau 58 - 60, Tystiolaeth ysgrifenedig, DE15 - Cymdeithas Syndrom Down; DE08 - Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru [Saesneg yn unig]

[3] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 14 Hydref, paragraff 242

O ran mynediad i leoliadau gwaith, dywedodd Arthur Beechy, Prif Swyddog Gweithredol Agoriad Cyf, elusen sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth â chymorth yng ngogledd Cymru, wrthym:

> *"I always remember a horror story, whereby the children in a school, which will remain nameless, all had placements to go out, bar a young disabled girl, because it was too much trouble to get her one, and she's the only one left in school of her year, and everybody else is out. There's something wrong there."*[4]

Nodwn y gellir craffu ar rai o'r materion hyn yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sydd ar ddod i Lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16. At hynny, rydym yn cydnabod natur anecdotaidd y cyfraniadau hyn. Fodd bynnag, hoffem glywed eich barn am y materion hyn sy'n ymwneud â'ch portffolio:

1. A fyddech cystal â rhoi eich ymateb i'r pryderon hyn ynghylch disgwyliadau a mynediad i leoliadau yn gyffredinol yn ogystal â'r cwestiynau penodol a nodir isod?

2. Eich asesiad o sut mae cynllun profiad gwaith Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 10 ac ym mlwyddyn 11 yn gallu cefnogi dysgwyr anabl? Pa ddata y gallwch eu rhannu gyda ni ynghylch cyfran y dysgwyr hynny sy'n anabl?

3. Yn fwy cyffredinol, eich asesiad o sut mae'r rhan "Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith" o'r Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn cefnogi dysgwyr anabl?

4. I ba raddau y mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau trydydd parti i ddarparu profiadau cyfoethogi o ansawdd uchel i ddysgwyr, yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru? Pa ddata y gallwch eu rhannu gyda ni?

5. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dysgwyr anabl yn cael yr hyblygrwydd a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i gael mynediad i addysg bellach? Beth yw eich disgwyliadau o sut mae AB, AU a'u hadrannau gyrfaoedd yn cefnogi dysgwyr anabl ymlaen i interniaethau a phrentisiaethau? A sut ydych chi'n ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn hyn o beth?

6. Beth yw goblygiadau, os o gwbl, ddeddfwriaeth a chanllawiau Anghenion Dysgu Ychwanegol cymharol newydd ar gyngor a chymorth gyrfaoedd i bobl ifanc anabl?

7. Unrhyw wybodaeth arall yr hoffech dynnu ein sylw ati o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i fyd gwaith i bobl anabl?

8. Sut ydych chi'n ymgysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i sicrhau bod pobl ifanc yn cael ystod mor eang â phosibl o opsiynau ar ôl iddynt gyrraedd

---

[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 21 Hydref, paragraff 329

16 oed? Er enghraifft, rydym wedi clywed pryderon am 'ymyl dibyn' sy'n wynebu pobl anabl wrth gael mynediad i leoliadau a chynlluniau penodol â chyfyngiad oed e.e. Twf Swyddi Cymru? Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ehangu mynediad i bobl anabl o bob oed?

Gan fod y Pwyllgor wrthi'n llunio ei adroddiad drafft, byddwn yn ddiolchgar am ymateb cyn gynted â phosibl ac yn ddelfrydol erbyn 10 Ionawr 2025 fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



Jenny Rathbone

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru/Welsh Parliament

Ministry of Justice

**Sir Nic Dakin MP**
Parliamentary Under-Secretary of State for Justice

**Jenny Rathbone MS, Chair**
Equality and Social Justice Committee Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** SUB121052

28 January 2024

Dear Jenny,

**TURNAROUND PROGRAMME IN 2025/26**

I am writing to update you on the Turnaround Programme in 2025/26, including funding and changes to administration of the programme, following on from our communication on the provision for speech, language and communication needs in the youth justice system.

I am pleased to tell you the Ministry of Justice is able to continue providing a substantial proportion of the Turnaround programme funding to deliver the programme for one more year across England and Wales, funding YOTs to support children on the cusp of the justice system. This will include provision for children with speech, language and communication needs.

We are making some changes to the delivery of the programme. We will be giving YOTs more freedom to choose how they spend part of the funding on early intervention. We will also be reducing the administrative burden on YOTs, taking into account feedback we have received from YOTs.

I believe this is a proportionate step to enable YOTs to decide on the best use of early intervention funding for their areas, and that this approach reflects the strong performance across the programme to date.

**Next steps**
My officials are writing to YOTs detailing their grant funding amount and targets.

I am continuing ongoing discussions with Jane Hutt MS, to ensure collective efforts to steer vulnerable children away from offending are in place.

**SIR NIC DAKIN MP**

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753
**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y BIL HAWLIAU CYFLOGAETH

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2024. Mae'r Bil ar gael yma: https://bills.parliament.uk/bills/3737/publications

3. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn wedi'i osod y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos oherwydd maint a chymhlethdod y ddeddfwriaeth.

### Amcanion Polisi

4. Mae amcanion polisi Llywodraeth y DU wedi'u nodi mewn trosolwg cyhoeddedig o'r Bil. Yn gryno, diben yr amcanion hyn yw:

   a. Mynd i'r afael â hyblygrwydd unochrog, gan sicrhau bod swyddi'n cynnig sicrwydd sylfaenol i weithwyr.

   b. Cefnogi hawliau sy'n ystyriol o deuluoedd drwy wella hyblygrwydd a sicrwydd.

   c. Blaenoriaethu tegwch, cydraddoldeb a llesiant gweithwyr.

   d. Sicrhau bod gweithwyr yn cael cyflog teg am ddiwrnod teg o waith.

   e. Moderneiddio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r undebau llafur, gan roi mwy o ryddid i undebau llafur drefnu, cynrychioli, a negodi ar ran eu gweithwyr.

   f. Gwella'r dull o orfodi hawliau cyflogaeth.

### Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

6. Nod y Bil yw cyflawni'r diwygiadau deddfwriaethol allweddol a nodir yng nghynllun 'Plan to Make Work Pay' Llywodraeth y DU.

---

[1]Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, sylwch ein bod yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn fel "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

7. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â diweddaru a gwella hawliau cyflogaeth presennol a gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau newydd; gwneud darpariaeth ynghylch cyflogau ac amodau mewn sectorau penodol; a gwneud diwygiadau mewn perthynas â materion undebau llafur a gweithredu diwydiannol. Yn ogystal â hynny, mae'r Bil yn creu mecanweithiau newydd ar gyfer gorfodi cyfraith cyflogaeth.

8. Mae'r Bil yn cynnwys 119 o gymalau a 7 Atodlen, ac mae'n gwneud darpariaeth yn y meysydd allweddol canlynol:

   a. Mae Rhan 1 yn ymdrin â hawliau cyflogaeth, gan gynnwys diwygio hawliau cyflogaeth mewn perthynas ag oriau wedi'u gwarantu; gweithio hyblyg; tâl salwch statudol; arian cildwrn ac arian rhodd; hawl i absenoldeb; gwarchodaeth rhag aflonyddu; a diswyddo.

   b. Mae Rhan 2 yn ymdrin â materion eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer trin diswyddiadau; contractau allanoli yn y sector cyhoeddus; a dyletswyddau cyflogwyr yn ymwneud â chydraddoldeb.

   c. Mae Rhan 3 yn ymdrin â chyflog ac amodau mewn sectorau penodol, gan gynnwys cyflogau ac amodau staff cymorth mewn ysgolion yn Lloegr, a sefydlu'r corff negodi ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion (bydd cylch gorchwyl y corff hwnnw wedi'i gyfyngu i Loegr).

   d. Mae Rhan 4 yn ymdrin ag undebau llafur a gweithredu diwydiannol, gan gynnwys hawl i gael datganiad yn ymwneud â hawliau o ran ymuno ag undebau llafur; hawl i undebau llafur i gael mynediad at weithleoedd; diwygiadau i'r amodau ar gyfer cydnabod undebau llafur; cyllid undebau llafur; cyfleusterau a ddarperir i gynrychiolwyr ac aelodau undebau llafur; cosbrestrau; gweithredu diwydiannol a phleidleisiau, darparu gwybodaeth i gyflogwyr, picedu a gwarchodaeth rhag gweithredu diwydiannol; diddymu darpariaeth ynghylch streiciau a lefelau gwasanaeth gofynnol; a swyddogaethau'r Swyddog Ardystio (a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992).

   e. Mae Rhan 5 yn ymdrin â gorfodi deddfwriaeth y farchnad lafur, ac yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol y swyddogaeth o orfodi deddfwriaeth y farchnad lafur. Penodir swyddogion gorfodi at y diben hwn.

   f. Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol; pŵer i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed; rheoliadau; darpariaeth ariannol; rhychwant; cychwyn; ac enw byr.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil a'r cynllun 'Plan to Make Work Pay' ehangach. Cyn cyflwyno'r Bil ac wedi hynny, bu trafod rheolaidd ac adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion.

10. Gallai'r Bil effeithio ar weithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Fodd bynnag, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn bennaf ynghylch materion a gedwir yn ôl. Mae'r Bil yn canolbwyntio ar hawliau cyflogaeth, a diwygiadau i faterion undebau llafur a gweithredu diwydiannol. Mae hyn yn dod o fewn mater a gedwir yn ôl, sef Cyflogaeth a Hawliau Diwydiannol. Yn ogystal, nid yw cymalau 28 i 44 yn gymwys ond mewn perthynas â Lloegr.

11. Fel y nodir isod, mae darpariaethau penodol yn y Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o ran materion datganoledig. Oherwydd hynny, mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd mewn cysylltiad â'r darpariaethau hynny.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

12. Rwy'n credu ei bod yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau a nodir isod, i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig.

**Cymal 25:**

Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Caffael 2023 mewn perthynas â gwarchod gweithwyr sy'n trosglwyddo mewn contractau allanoli. Diben y cymal hwn yw creu pŵer i un o Weinidogion y Goron wneud rheoliadau a gosod dyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer statudol. Bwriedir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio i nodi mesurau i osgoi sefyllfaoedd pan fo gweithlu yn cynnwys cyn-weithwyr y sector cyhoeddus a gweithwyr y sector preifat, gyda phob grŵp ar delerau ac amodau gwahanol, a elwir yn gyffredin yn "weithlu dwy haen". Mae'r Bil yn eithrio awdurdodau Cymreig datganoledig o gwmpas yr adran newydd (ac eithrio pan fyddant yn cymryd rhan mewn trefniadau caffael a gedwir yn ôl ac unrhyw "drefniant caffael Cymreig datganoledig"). Roedd darpariaethau cysylltiedig yn Neddf Caffael 2023 yn destun Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Cymal 26:**

Mae cymal 26 yn mewnosod adran newydd 78A yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol lunio a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru wedi'u heithrio, ond mae Comisiwn y Senedd (o dan ei enw blaenorol, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn dod o fewn cwmpas y Bil.

**Cymal 49**

Mae cymal 49 yn diddymu adran 116B o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, fel y'i mewnosodwyd gan adran 15 o Ddeddf yr Undebau Llafur 2016, a oedd yn caniatáu i gyflogwr perthnasol yn y sector cyhoeddus wneud didyniadau o gyflogau ei weithwyr am danysgrifiadau i undebau llafur o dan rai amgylchiadau. Roedd Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 wedi datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn Neddf yr Undebau Llafur 2016 o ran awdurdodau Cymreig datganoledig.

**Cymal 52**

Mae cymal 52 yn diddymu adrannau 172A a 172B o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, a fewnosodwyd yn Neddf 1992 gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016. Roedd yr adrannau hyn yn galluogi un o Weinidogion y Goron i wneud rheoliadau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyflogwyr yn y sector gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau a gweithgareddau'r undebau llafur. Roedd Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 wedi datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn Neddf yr Undebau Llafur 2016 o ran awdurdodau Cymreig datganoledig.

**Cymal 54**

Mae cymal 54 yn diwygio adran 226 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, a ddiwygiwyd gan adrannau 2 a 3 o Ddeddf yr Undebau Llafur 2016. Effaith y cymal yw negyddu effaith adran 3 o Ddeddf yr Undebau Llafur 2016, sy'n golygu mai dim ond mwyafrif syml o'r rhai sy'n pleidleisio mewn pleidlais a gynhelir gan undeb llafur ar gyfer gweithredu diwydiannol sydd ei angen er mwyn i'r bleidlais fod yn llwyddiannus, heb unrhyw ofynion o ran y niferoedd sy'n pleidleisio. Roedd Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 wedi datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn Neddf yr Undebau Llafur 2016 o ran awdurdodau Cymreig datganoledig.

**Cymal 61**

Mae cymal 61 yn diddymu Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023, gan ddadwneud y newidiadau a wnaed gan y Ddeddf honno i Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Roedd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â gwneud Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwnnw yn nodi'r sectorau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru y gallai'r Ddeddf effeithio arnynt.

**Cymal 71**

Mae cymal 71 yn diddymu adran 1 o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017. Cafodd diwygiadau penodol a wnaed gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 i Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, mewn perthynas ag "awdurdodau Cymreig datganoledig", eu datgymhwyso gan Ddeddf 2017. Diddymir y darpariaethau hyn yn Neddf Undebau Llafur 2016 drwy gymalau 49, 52 a 54 o'r Bil Hawliau Cyflogaeth (gweler uchod), ac felly bydd adran 1 o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 yn dod yn ddiangen ac ni fydd yn cael effaith gyfreithiol mwyach.

## Barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad

13. Mae Llywodraeth y DU wedi cynghori Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 25. Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau eraill a nodir uchod.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Hawliau Cyflogaeth

14. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil Hawliau Cyflogaeth. Mae'r darpariaethau yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo ac annog gwaith teg. Mae'r Bil Hawliau Cyflogaeth yn rhoi cyfle gwerthfawr ac angenrheidiol i gryfhau hawliau cyflogaeth ledled Prydain Fawr, gan gynnwys ar gyfer gweithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

## Goblygiadau ariannol

15. Mae goblygiadau ariannol ansylweddol mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer. Y rheswm am hyn yw:

    a. Cymal 25: Mae'r cymal hwn yn eithrio caffaeliadau a gyflawnir gan awdurdodau Cymreig datganoledig o'r dyletswyddau hyn, ac eithrio pan fo'r caffaeliad yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Mae caffaeliad o'r fath yn anghyffredin, ac ni ddisgwylir costau sylweddol.

    b. Cymal 26: Comisiwn y Senedd yw'r unig gorff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sy'n dod o fewn cwmpas y cymal hwn. Mae dadansoddiad economaidd Llywodraeth y DU yn nodi bod yr effaith uniongyrchol flynyddol ar gyflogwyr yn fach (cyfanswm o rhwng £0 a £10m ar gyfer pob cyflogwr ledled y DU).

    c. Cymalau 49, 52, 54 ac 71: Nid oes unrhyw newid cyfreithiol ymarferol o ran Cymru yn sgil y cymalau hyn, ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

d. Cymal 61: Ers cyflwyno Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023, nid oes unrhyw gyflogwr yn y DU wedi defnyddio lefelau gwasanaeth gofynnol nac wedi cyhoeddi hysbysiadau gwaith. Nid yw'r asesiad effaith a gyflawnwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â diddymu'r Ddeddf yn rhagweld costau ariannol yn y sector cyhoeddus, ac eithrio costau posibl yn ymwneud â gweithredu diwydiannol gan Lu'r Ffiniau. Nid cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw Llu'r Ffiniau.

**Casgliad**

16. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar waith teg ac yn rhoi cyfle i gryfhau hawliau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr yng Nghymru. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jack Sargeant AS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**5 Rhagfyr 2024**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (Rhif 2)**

**Y BIL HAWLIAU CYFLOGAETH**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 10 Hydref 2024*.* Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 5 Rhagfyr 2024.

3. ***Gwelliannau***
   - Cyflwynodd Llywodraeth y DU 110 o welliannau ar 26 Tachwedd i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a ddechreuodd ar 26 Tachwedd ac y bwriedir iddo redeg tan 21 Ionawr. Mae'r rhan fwyaf o'r 110 o welliannau yn gwneud darpariaeth nad yw'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Fodd bynnag, mae gwelliannau 59 i 64 gan Lywodraeth y DU yn rhoi sylw i faterion datganoledig oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y manylir ym mharagraff 19 isod.

4. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-01/0011/240011.pdf

**Amcanion Polisi**

5. Mae amcanion polisi Llywodraeth y DU wedi'u nodi mewn trosolwg cyhoeddedig o'r Bil. Yn gryno, diben yr amcanion hyn yw:

   - Mynd i'r afael â hyblygrwydd unochrog, gan sicrhau bod swyddi'n cynnig sicrwydd sylfaenol i weithwyr.

   - Cefnogi hawliau sy'n ystyriol o deuluoedd drwy wella hyblygrwydd a sicrwydd.

   - Blaenoriaethu tegwch, cydraddoldeb a llesiant gweithwyr.

   - Sicrhau bod gweithwyr yn cael cyflog teg am ddiwrnod teg o waith.

---

[1] Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, sylwch ein bod yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn fel "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

- Moderneiddio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r undebau llafur, gan roi mwy o ryddid i undebau llafur drefnu, cynrychioli, a negodi ar ran eu gweithwyr.

- Gwella'r dull o orfodi hawliau cyflogaeth.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

7. Nod y Bil yw cyflawni'r diwygiadau deddfwriaethol allweddol a nodir yng nghynllun 'Plan to Make Work Pay' Llywodraeth y DU.

8. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â diweddaru a gwella hawliau cyflogaeth presennol a gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau newydd; gwneud darpariaeth ynghylch cyflogau ac amodau mewn sectorau penodol; a gwneud diwygiadau mewn perthynas â materion undebau llafur a gweithredu diwydiannol. Yn ogystal â hynny, mae'r Bil yn creu mecanweithiau newydd ar gyfer gorfodi cyfraith cyflogaeth.

9. Roedd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys 119 o gymalau a 7 Atodlen. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd allweddol canlynol:

    - Mae Rhan 1 yn ymdrin â hawliau cyflogaeth, gan gynnwys diwygio hawliau cyflogaeth mewn perthynas ag oriau wedi'u gwarantu, gweithio hyblyg, tâl salwch statudol, arian cildwrn ac arian rhodd, hawl i absenoldeb, gwarchodaeth rhag aflonyddu, a diswyddo.

    - Mae Rhan 2 yn ymdrin â materion eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer trin diswyddiadau, contractau allanoli yn y sector cyhoeddus, a dyletswyddau cyflogwyr yn ymwneud â chydraddoldeb.

    - Mae Rhan 3 yn ymdrin â chyflogau ac amodau mewn sectorau penodol, gan gynnwys cyflogau ac amodau staff cymorth mewn ysgolion yn Lloegr, a sefydlu'r Corff Negodi ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

    - Mae Rhan 4 yn ymdrin ag undebau llafur a gweithredu diwydiannol, gan gynnwys hawl i gael datganiad yn ymwneud â hawliau o ran ymuno ag undebau llafur, hawl i undebau llafur i gael mynediad at weithleoedd, diwygiadau i'r amodau ar gyfer cydnabod undebau llafur, cyllid undebau llafur, a chyfleusterau a ddarperir i gynrychiolwyr ac aelodau undebau llafur, cosbrestrau, gweithredu diwydiannol, a phleidleisiau, darparu gwybodaeth i gyflogwyr, picedu a gwarchodaeth rhag gweithredu diwydiannol, diddymu darpariaeth ynghylch streiciau a lefelau gwasanaeth gofynnol, a swyddogaethau'r Swyddog Ardystio (a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992).

- Mae Rhan 5 yn ymdrin â gorfodi deddfwriaeth y farchnad lafur, ac yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol y swyddogaeth o orfodi deddfwriaeth y farchnad lafur. Penodir swyddogion gorfodi at y diben hwn.

- Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol, pŵer i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, rheoliadau, darpariaeth ariannol, rhychwant, cychwyn ac enw byr.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil a'r cynllun 'Plan to Make Work Pay' ehangach. Cyn cyflwyno'r Bil ac wedi hynny, bu trafod rheolaidd ac adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion.

11. Gallai'r Bil effeithio ar weithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Fodd bynnag, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn bennaf ynghylch materion a gedwir yn ôl. Mae'r Bil yn canolbwyntio ar hawliau cyflogaeth, a diwygiadau i faterion undebau llafur a gweithredu diwydiannol. Mae hyn yn dod o fewn mater a gedwir yn ôl, sef Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol. Yn ogystal, nid yw cymalau 28 i 44 yn gymwys ond mewn perthynas â Lloegr.

12. Fel y nodir isod, mae darpariaethau penodol yn y Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o ran materion datganoledig. Oherwydd hynny, mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd mewn cysylltiad â'r darpariaethau hynny.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

13. Ysgrifennais at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Hawliau Cyflogaeth, Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Justin Madders AS, ar 29 Hydref.

14. Yn fy llythyr, croesawais y ffaith bod cymal 25 wedi'i gynnwys yn y Bil Hawliau Cyflogaeth, sy'n diogelu telerau ac amodau gweithwyr sy'n cael eu trosglwyddo pan gaiff contractau eu hallanoli a gweithwyr eraill a gyflogir ar gontractau o'r fath.

15. Nodais fod cod tebyg, a elwir yn gyffredin yn "God Dwy Haen" wedi bod ar waith yng Nghymru fel canllawiau ers 2014. Amlygais hefyd fod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig â chontractau allanoli gwasanaethau.

16. Nodais anghysondeb posibl o ystyried nad yw'r ddyletswydd yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ond yn

gymwys i'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno ac nad yw'n cynnwys sawl corff a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023. Byddai cymal 25 o'r Bil Hawliau Cyflogaeth, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, hefyd yn eithrio'r awdurdodau Cymreig datganoledig hynny nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1.

17. Er mwyn sicrhau dull cyson ac osgoi creu sefyllfa a allai fod yn anghyson, gofynnais i Lywodraeth y DU ystyried gwelliant i gymal 25 o'r Bil Hawliau Cyflogaeth i roi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth mewn rheoliadau, a chyhoeddi cod ymarfer, i fod yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

18. Cefais ymateb gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar 29 Tachwedd. Nododd y pwyntiau a godwyd gennyf a chadarnhaodd y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio diwygio'r Bil, yn unol â'm cais, yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Ar hyn o bryd, mae'r gwelliannau canlyniadol i gymal 25 (gwelliannau 59 i 64 gan y Llywodraeth) yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i’w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

19. Rwy’n credu ei bod yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd mewn perthynas â’r cymalau a nodir isod, i’r graddau y maent yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig.

**Cymal 25:**

Mae gwelliannau 59 i 64 gan Lywodraeth y DU yn disodli cymal 25 gyda darpariaethau wedi'u hailweithio ar yr un pwnc (diogelu gweithwyr rhag triniaeth niweidiol o ganlyniad i allanoli).

Byddai'r gwelliannau hyn yn ailstrwythuro'r darpariaethau newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Caffael 2023 fel y byddai'r pwerau a freiniwyd yn flaenorol yn yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn awr hefyd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban mewn cysylltiad â'r awdurdodau datganoledig perthnasol yng Nghymru a'r Alban. Mae'r gwelliant hefyd yn egluro nad yw'r ddyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer yn dibynnu ar wneud y rheoliadau.

Yr effaith ymarferol mewn perthynas â Chymru yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn rheoliadau i sicrhau bod gweithwyr sy'n cael eu trosglwyddo i gontractwr a gweithwyr sydd eisoes yn gweithio i'r contractwr hwnnw yn cael eu trin yn gyfartal, a chyhoeddi cod ymarfer ar faterion cysylltiedig. Bydd y darpariaethau newydd hyn yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig

datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

20. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly maent yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Maent hefyd yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru sy'n effeithio ar faterion datganoledig yn ddieithriad.

21. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf mewn perthynas â chymal 25 yn ogystal â darpariaethau eraill. Mae gwelliannau 59 i 64 gan Lywodraeth y DU yn disodli'r cymal hwn fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol gyda fersiwn newydd sy'n rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru (nid oedd y fersiwn flaenorol o'r cymal yn gwneud hynny).

**Barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

22. Fel y nodais yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, roedd Llywodraeth y DU yn derbyn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 25. Nid yw Llywodraeth y DU wedi datgan ei barn ar yr angen am gydsyniad mewn perthynas â'r gwelliannau a ddisgrifir uchod.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Hawliau Cyflogaeth**

23. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r Bil Hawliau Cyflogaeth. Mae'r gwelliannau hyn i'r Bil wedi'u gwneud ar fy nghais i. Mae'r gwelliannau hyn yn hwyluso dull cyson o ddiogelu gweithwyr rhag triniaeth niweidiol o ganlyniad i allanoli. Mae hyn yn cynnwys cysondeb mewn cyrff cyhoeddus sydd o fewn cwmpas mewn perthynas â darpariaethau perthnasol yn y Bil Hawliau Cyflogaeth, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael 2023.

**Goblygiadau ariannol**

23. Mae Cod y Gweithlu (a elwir yn gyffredin yn God y Gweithlu Dwy Haen) wedi bod ar waith fel canllawiau yng Nghymru ers deng mlynedd. Fodd bynnag, nid ydym wedi cynnal dadansoddiad o'r graddau y mae wedi cael ei gymhwyso. Gallai fod rhai costau cyflogaeth uwch, ond gan fod Cod eisoes wedi bod ar waith yng Nghymru fel canllawiau, mae'n anodd amcangyfrif costau ychwanegol a allai godi drwy ddiogelu rhag erydiad telerau ac amodau yn y dyfodol pan gaiff gwasanaethau eu hallanoli.

24. Nid oedd rhai cyrff Cymreig, gan gynnwys y prifysgolion, wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl Cod 2014, ac felly gellid dadlau bod diogelu gweithwyr mewn contractau allanoli yn cynrychioli costau newydd i'r cyrff hynny. Fodd bynnag, ni wyddys a yw'r cyrff hyn yn bwriadu allanoli unrhyw un o'u gwasanaethau yn y dyfodol, felly ni ellir cyfrifo goblygiadau ariannol diogelu gweithwyr gydag unrhyw lefel o gywirdeb.

**Casgliad**

25. Rwyf o’r farn ei bod yn briodol mynd i’r afael â’r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar waith teg. Gwnaed y gwelliannau i'r Bil ar fy nghais i er mwyn annog mwy o gysondeb yn y maes hwn o ddeddfwriaeth. Felly, rwy’n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi’r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jack Sargeant AS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**19 Rhagfyr 2024**

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon